# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 12.08.20 – 6yh - yn Elfan, Llwyngwril …… yn dilyn rheolau Covid 19, gan fod Y Ganolfan heb ail-agor

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, Jenny Warne, Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** John Griffiths.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **11.03.20** fel rhai cywir.
   **Cynnig –** Kevin Goodchild **Eilio –** David Griffiths **Arwyddwyd –** Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (11.03.20):**

   a) **Llwybr ger "Wendy's" yn Llwyngwril:** Ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd i'n hymholiad ynglŷn â'r llwybr yma. Ms Liz Haynes, Swyddog Llwybrau Cyhoeddus, Cyngor Gwynedd, yn cadarnhau nad yw'r llwybr yma yn llwybr cyhoeddus ar y Map Diffiniol a Datganiad o Hawl Tramwy, Cyngor Gwynedd.
   Fodd bynnag gall unrhyw un wneud cais i Gyngor Gwynedd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 - i ychwanegu llwybr at y Map Diffiniol (os yw'r llwybr wedi cael ei ddefnyddio ers blynyddoedd, ond heb ei gofnodi). Gellir cwblhau'r ffurflenni cais ar wefan Cyngor Gwynedd.

5. **Gohebiaeth:**

   a) **Llwybr ger "Wendy's" yn Llwyngwril**: Derbyniwyd sawl llythyr ag e-bost yn datgan anghymeradwyaeth bod y tirfeddiannwr wedi gosod arwyddion i gau'r llwybr ger "Wendy's". Nodwyd o'r ohebiaeth, fod y llwybr hwn wedi ei ddefnyddio, heb ei herio, ers sawl degawd. Hoffai'r holl ohebwyr i'r Cyngor Cymuned, ar ran y gymuned, wneud y gwaith ymchwil angenrheidiol i ddefnydd y llwybr ac yna gwneud y cais i ychwanegu'r llwybr ar Fap Diffiniol Cyngor Gwynedd o Hawliau Tramwy, i ailagor y llwybr.
   Ar ôl trafod y ceisiadau a'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn fanwl, daeth yr aelodau i benderfyniad.
   **Penderfyniad** ➡ ni fyddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried gwneud Cais Gorchymyn Addasu i'r Map a'r Datganiad Diffiniol Gwynedd, o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

   b) **Adroddiad Archwiliad Diogelwch ROSPA ar y Cae Chwarae yn Llwyngwril – Gorffennaf 2020:**
   Archwiliad wedi ei wneud 13.07.20 ac Adroddiad wedi ei dderbyn - ni nodwyd unrhyw faterion brys.

6. **Materion Cynllunio:**
   Derbyniwyd ac ymdriniwyd â'r ceisiadau cynllunio canlynol o dan gyfyngiadau Covid 19 - gwybodaeth wedi eu e-bostio at Huw Davies (Cadeirydd), Kevin Goodchild (Is-gadeirydd) ac Ian Williams (cyn-Gadeirydd) am unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau.

a) **NP5/69/118F – Bryn Eithin, Llwyngwril (03.04.20)**
Adeiladu caban pren fel adeilad ategol i'r pwll nofio presennol yn lle'r caban presennol ag ystafell offer
**Penderfyniad** → dim cyflwyniadau / gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc gan y Cyngor Cymuned.

b) **NP5/69/392A – Llwyn Du, Llwyngwril (06.04.20)**
Codi annedd deulawr
**Penderfyniad** → dim cyflwyniadau / gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc gan y Cyngor Cymuned.

c) **NP5/69/348A –Tir ger Machlud Haul, Llwyngwril (20.04.20)**
Adeiladu tŷ
**Penderfyniad** → dim cyflwyniadau / gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc gan y Cyngor Cymuned.

d) **NP5/69/LB150E - Tŷ Nant, Llwyngwril (14.05.20)**
Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newidiadau mewnol ac allanol
**Penderfyniad** → dim cyflwyniadau / gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc gan y Cyngor Cymuned.

e) **NP5/69/352B – Tir ger Gwynfryn, Llwyngwril (15.05.20)**
Cais i addasu Cytundeb 106 mewn perthynas â Chaniatâd Cynllunio NP5/69/352A
**Penderfyniad** → dim cyflwyniadau / gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc gan y Cyngor Cymuned.

f) **NP5/69/E16F – Tir ger Castell Mawr, Llanegryn (17.06.20)**
Ymgynghoriad o dan Ran 37 o'r Ddeddf Trydan 1989 i osod llinell drydan foltedd uchel uwchben
**Penderfyniad** → dim cyflwyniadau / gwrthwynebiadau i'w cyflwyno i'r Parc gan y Cyngor Cymuned.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad ariannol wedi ei wneud.
Derbyn Cyfrifon Ariannol am y flwyddyn yn diweddi 31.03.20 yn gywir a'i cymeradwyo.
**Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Geraint Edwards **Arwyddwyd –** Huw Davies.

a) **Archwiliad Mewnol y Cyngor Cymuned gan Archwilwyr Mewnol Cyngor Gwynedd:**
Archwiliad Mewnol y Cyngor wedi'i gwblhau a'i lofnodi gan Uned Archwilio Cyngor Gwynedd - 04.06.20
Ardystiwyd gan y Clerc 06.06.20.

b) **Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31.03.20:** wedi'i chymeradwyo gan aelodau'r cyngor a'i llofnodi gan y Cadeirydd.
Barn Archwilio wedi ei derbyn - Nid oes gan y cyngor Gontract Cyflogaeth i'r Clerc.
Trafodwyd hyn gydag aelodau'r cyngor. Cyngor i gymryd camau priodol i liniaru'r risg hon.

c) **Archwiliad Allanol y Cyngor Cymuned gan BDO:**
Rhybudd o archwiliad allanol wedi ei derbyn gan BDO am y flwyddyn a ddaeth i ben 31.03.20.
Ffurflen Flynyddol wedi ei llofnodi i gael ei anfon i BDO gyda'r wybodaeth maen nhw wedi gofyn am.
Cyhoeddi Rhybudd o Hawliau'r Etholwr ar wefan y cyngor ar 16.08.2020.

d) **Derbyniwyd y praesept** - 29.4.20 - (am 6 mis) = **£ 4,900.00**
e) **Ad-daliad TAW** ar gyfer 2019-20 wedi ei dderbyn gan HMRC = **£ 302.78**
f) **BHIB** - polisi yswiriant wedi ei adnewyddu ar 01.06.20 = **£ 785.21.**

**g) Adolygu cyflog a chosta'r Clerc:**

**Penderfyniad** ➞Trafododd yr aelodau a chytunodd pawb i gynyddu'r cyflog 2.5%
a £50.00 yn ychwanegol y flwyddyn at gosta'r clerc.
Cyflog = £ 1,168.50 x 2 / Cynnydd o 2.5% = £ 29.20 x 2
Costa = £ 200 x 2 / Cynnydd o £ 25.00 x 2
Cyflog 2020-21 i'w dalu dwywaith y flwyddyn ➞ Awst a Thachwedd 2020 = **£ 1,422.70**
I'w adolygu'n flynyddol.

- *Lleisiodd Geraint Edwards fuddiant personol a chwblhaodd ffurflen "Hysbysiad o Ddiddordeb Personol" ni chymerodd ran yn y drafodaeth na phenderfyniad yr adolygiad hwn*

**8. <u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:</u>** Dim

**9. <u>Unrhyw Fater Arall</u>:**

**a) Ceg yr Afon Gwril:** Huw wedi cynnig cysylltu â Mr A Williams, Cyngor Gwynedd a Mr D Roberts, Cyfoeth Naturiol Cymru, ynglyn a chyflenwi ffurflen "datganiad dull" er mwyn cael y gwaith wedi ei gwblhau.

**<u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Iau – 10.09.20 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan yn Fairbourne yn dilyn rheolau Covid 19</u>.**

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**